# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gofalus Ltd**

**Fflat 1 Prospect Place**
**Crymych**
**SA41 3QQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23 Chwefror 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gofalus Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Gofalus LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Gall pobl sy'n cael gofal a chymorth gan Gofalus fod yn hyderus bod y gwasanaeth o ansawdd dda, a bod y gweithwyr gofal yno'n uchel eu cymhelliant; wedi'u hyfforddi a'u harwain yn effeithiol gan reolwr profiadol.

Mae gan y rheolwr/unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth yn ogystal â dealltwriaeth dda o'r bobl maent yn eu cefnogi.

Mae'r gwasanaeth yn fach sy'n golygu bod pobl yn adnabod y gweithwyr gofal a bod lefel dda o barhad.

## Llesiant

Mae pobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae'r staff yn gwybod y camau mae'n rhaid iddynt eu cymryd os ydynt yn amau bod unigolyn mewn perygl. Mae ganddynt hyder y bydd y rheolwr yn cymryd y mesurau priodol i adrodd am unrhyw bryderon, ac yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu pobl.

Mae gan weithwyr gofal gydberthnasau da gyda'r rhai maent yn gofalu amdanynt a'u perthnasau. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o ystyr gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent yn barchus o eiddo pobl. Caiff perthnasau eu hysbysu bob amser o unrhyw newidiadau. Dywedodd un unigolyn wrthym y byddent *"yn sicr"* yn argymell Gofalus i unrhyw un sydd angen cymorth neu ofal a dywedodd nad oedd y gweithwyr yn *"edrych ar y cloc"* a disgrifiodd y gweithwyr fel *"cymwynasgar iawn; caredig iawn".*

Mae pobl yn cael gofal gan weithwyr sydd yn uchel eu cymhelliant. Mae un gweithiwr gofal yn ystyried bod y gwasanaeth *"fel pob cwmni gofal arall"* ond roedd eraill yn fwy cadarnhaol, gan ddisgrifio eu gwaith fel *"anhygoel"* ac yn nodi mai'r rheolwr yw'r rheswm maent yn dychwelyd i weithio i Gofalus. Disgrifiodd gweithiwr gofal arall hon fel *"y swydd ofal orau rwyf wedi'i chael"* ac roedd yr un mor gadarnhaol am y gefnogaeth maent yn ei chael gan y rheolwr.

Mae'r holl staff yn rhannu gwerthoedd y gwasanaeth, gydag un yn disgrifio'r tîm fel *"gofalgar iawn"* ac yn ystyried bod gwerthoedd y gwasanaeth *"yn dod o'r galon"*. Mae'r gweithwyr yn ddibynadwy ac yn hyblyg ac yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod ystod o anghenion y bobl yn cael eu diwallu.

## Gofal a Chymorth

Cynlluniau gofal; cedwir copïau caled o asesiadau risg a chofnodion dyddiol. Mae dogfennau yn eglur ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i staff er mwyn iddynt gynnig y gofal a’r cymorth sydd eu hangen. Mae gweithwyr gofal o’r farn bod y cynlluniau gofal o gymorth iddynt ac mae ganddynt amser i'w darllen. Dywedir wrth weithwyr gofal am unrhyw newidiadau i anghenion iechyd a gofal pobl.
Caiff cynlluniau gofal eu hadolygu bob tri mis, ac yn fwy aml os bydd angen. Mae anghenion cymorth un unigolyn wedi newid yn ddiweddar ac mae'r darparwr wedi hysbysu'r awdurdod lleol o'r newidiadau hyn.
Mae cofnodion ar gael ar gyfer ystod o feysydd, gan gynnwys asesiadau risg amgylcheddol i sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y cartref yn ogystal â'r unigolyn sy'n byw yno.
Caiff nodau pobl eu cofnodi'n glir. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn er mwyn i'r unigolyn aros gartref ac mae'r cynllun gofal wedi'i ddatblygu o amgylch hyn, gan amlinellu sut y gall staff gynorthwyo'r unigolyn i wneud hynny.
Mae cofnodion dyddiol yn adlewyrchu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn gynhwysfawr ac yn amlinellu'r cymorth a gynigir. Weithiau, roedd hyn yn cynnwys tasgau nad oeddent ar y cynllun gofal, er enghraifft, sicrhau bod anifeiliaid anwes yn cael eu bwydo.

Mae gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r sefyllfa freintiedig maent ynddi wrth iddynt gael eu gwahodd i gartrefi pobl. Gallant fynegi'r ffyrdd maent yn dangos parch at bobl a'u heiddo drwy sicrhau bod y cartref yn ddiogel pan maent yn gadael a glanhau ar ôl eu hunain. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym eu bod yn atgoffa staff i ofalu am y cartref yn yr un ffordd ag y byddai'r unigolyn eisiau iddo gael ei ofalu amdano.

Mae anghenion iechyd corfforol pobl yn cael eu diwallu. Mae cynlluniau gofal yn nodi pa gymorth sydd ei angen o ran meddyginiaeth a gwelsom fod staff wedi hysbysu'r teulu pan ganfuwyd bod meddyginiaeth un unigolyn wedi dod i ben. Mae gweithwyr gofal yn gallu cydnabod pan fydd croen unigolyn mewn perygl o niwed gan friwiau pwyso ac maent yn gwybod i adrodd am unrhyw bryderon i'r rheolwyr a'r tîm nyrsio rhanbarthol. Mae offer symud a thrin ar gael i staff ei ddefnyddio os bydd angen ac mae'r rhan fwyaf o’r staff wedi'u hyfforddi i symud a thrin.

Mae'r bobl yn cael ymweliad yn unol â’r amserlen o ymweliadau dynodedig.. Gwnaeth pawb y gwnaethom siarad â nhw ddweud nad ydynt yn cael eu brysio ac nad oes disgwyl na gofyn iddynt adael yn gynnar i weld unigolyn arall. Mae’r cofnodion dyddiol yn nodi pryd mae gweithwyr gofal yn eistedd ac yn sgwrsio gyda phobl. Mae gan y rhai sydd wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'r rhai maent yn gofalu amdanynt; eu cefndir a phwy a beth sy'n bwysig iddynt.

Mae’r gweithwyr gofal yn ddibynadwy ac mae yna lefel uchel o barhad. Mae ymweliadau wastad wedi cael eu cynnal ac os yw'r staff yn rhedeg yn hwyr, maent yn rhoi gwybod i'r swyddfa a'r unigolyn.

Mae gan bobl gydberthnasau da gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Disgrifiodd un gweithiwr gofal bobl *"fel aelod o’r teulu".* Dywedodd un berthynas wrthym *"Maen nhw mor dda gydag X, mor glên gydag ef"* a disgrifiodd rhywun arall y staff fel *"criw da iawn".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae adroddiad sicrhau ansawdd manwl yn myfyrio ar feysydd y mae'r rheolwr/unigolyn cyfrifol yn ystyried bod y gwasanaeth yn eu gwneud yn dda, yn ogystal â'r meysydd hynny lle caiff y gwasanaeth ei herio. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn dangos yr ymgynghorwyd â’r bobl, eu perthnasau a'r rhai sydd yn gweithio i’r gwasanaeth.

Caiff staff eu penodi yn dilyn proses recriwtio ddiogel. Caiff y gwiriadau diogelwch angenrheidiol eu cynnal a chaffaelir geirdaon. Mae ffotograff i adnabod yr unigolyn ar gael yn y rhan fwyaf o’r ffeiliau unigol. Mae ffeiliau’r staff wedi'u trefnu'n dda ac mae’n hawdd dod o hyd i wybodaeth ynddynt.

Ystyrir bod y gweithwyr gofal yn fedrus ac wedi'u hyfforddi'n dda. Nid oes matrics hyfforddi ond mae gan bob aelod o staff gofnod cyfredol o hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau, yn ogystal ag amserlen ar gyfer gwneud yr hyfforddiant eto. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn gyfredol, ond, o ganlyniad i'r pandemig, mae rhywfaint o hyfforddiant wedi dyddio ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer cwblhau hyn. Nid oes gofyn i staff wneud unrhyw beth nad ydynt wedi'i hyfforddi i wneud.

Rhoddir adborth i staff ar eu gwaith fel rhan o'u goruchwyliaeth. Mae rhai cofnodion goruchwylio wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr a'r aelod o staff ac yn cynnwys adolygiad o'u perfformiad gwaith, targedau gwaith yn y dyfodol ac unrhyw anghenion hyfforddiant a chymorth.

Caiff amser teithio ei ystyried wrth lunio rotâu. Lle nad oes amser teithio wedi’i nodi, rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni fod cartrefi’r bobl yn agos at ei gilydd a bod staff yn gallu symud rhwng y cartrefi yn gyflym. Cadarnhaodd pobl nad yw ymweliadau byth yn dod i ben yn gynnar am fod angen i staff adael i fynd at rywun arall. Mae bylchau yn yr amserlenni weithiau, y mae ambell aelod o staff yn eu cael yn anodd, gan nad ydynt yn cael eu talu am yr amseroedd hyn.

## Yr amgylchedd

Nid yw'r thema hon yn berthnasol i asiantaethau gofal cartref. Fodd bynnag, mae'r swyddfeydd mewn cyflwr da ac mae lle i'r staff gyfarfod â'r rheolwr yn breifat.

Gwneir asesiadau risg o gartref yr unigolyn i sicrhau ei fod yn ddiogel ar gyfer gweithwyr.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 16/03/2022